
Albert y Crwban

# Albert Ben i Lawr




Awdur: Ian Brown
Darlunydd: Eoin Clarke
Oed: 3-5
Fformat: Clawr meddal
Iaith: Cymraeg
Maint: 250 x 250mm
Cyhoeddiad: Ebrill 2022
Pris: £7.99

## Themau

Helpu eraill
Symud
Pryfed
Grymoedd

## Clawr

Trafodwch y llun – beth welwch chi?


Pwy sydd ar y clawr tybed?

Beth sydd wei ei ysgrifennu ar y clawr?

Y teitl, enw'r awdur a'r darlunydd.

(Mwy o wybodaeth ar dudalen 34)

Fuoch chi wyneb i waered erioed? Sut deimlad ydyw?




## Tudalen fewnol

Pwy welwch chi? Beth mae Albert yn ei wneud?

Beth arall sydd ar y dudalen – Graffeg yw enw'r cyhoeddwr.

Y cyhoeddwr/ argraffwr sy'n cynhyrchu'r llyfr– dewch o hyd i wybodaeth am argraffwyr.



## Tudalen 2 a 3


Ble mae Albert?

Pam bod popeth yn edrych yn rhyfedd?

Sut gwyddom ei fod wyneb i waered?

Gorweddwch lawr tu allan ac edrychwch ar yr awyr / cymylau.

*Albert Ben i Lawr* Nodiadau Addysgu © 2021 Graffeg. Cedwir pob hawl.. Ysgrifennwyd gan Carys Jennings. www.graffeg.com/pages/teachers-resources.



## Tudalen 4 a 5

Fedrwch chi weld Albert? (trowch y llyfr drosodd)

Beth sydd wedi digwydd?

Crëwch grwban o glai/ play doh & Crëwch y gragen o ddeunydd ailgylchu



## Tudalen 6 a 7

Beth oedd Albert yn ceisio ei wneud cyn iddo syrthio?

Pa flodyn oedd Albert am ei fwyta?

Ewch am dro i chwilio am flodau gwyllt.




## Tudalen 8 a 9

O na, mae Albert wedi cwympo!

Pam na all Albert droi drosodd?

Sut ydych yn meddwl mae Albert yn teimlo?



## Tudalen 10 a 11

Pwy ddaeth heibio a gweld Albert?

A fydd e'n medru helpu tybed? Pam? Sut?



## Tudalen 12 a 13

Pwy ddoth i weld Albert nesaf?

Mwydyn arall a'r morgrug – beth wnaeth y corryn ddweud?

Beth am weithio gyda'n gilydd– syniad da?

Amser cylch – sut gallwn ni helpu rhywun sydd wedi cwympo ar y buarth, rhywun sy'n teimlo'n drist, rhywun sy'n newydd i'r ysgol?



## Tudalen 14 a 15

Beth wnaeth y mwydyn roi ar y bwrdd? Cynllun!

Beth mae o'n ei wisgo? Het ddiogeli a siaced loyw.

Pwy sy'n gwisgo dillad fel y rhain? Pam?

Crëwch ras rwystrau i'r plant fynd drwyddo.



## Tudalen 16 a 17

Pwy welwch chi yn y darlun?

Sawl un fedrwch chi ei enwi?

Beth sydd yma/ gwesty i'r pryfed?

Crëwch westy i'ch pryfed y tu allan.



## Tudalen 18 a 19

Sut mae nhw'n mynd i helpu Albert? Gwthio, codi, tynnu.

Pwy sy'n tynnu?

Pwy sy'n gwthio?

Ymchwiliwch i rymoedd gan ddefnyddio gwahanol wrthrychau – ceir, cerrig, bagiau siopa.



## Tudalen 20 a 21

Pam eu bod yn defnyddio ffrwythau a llysiau?


Fedrwch chi eu henwi?

Ydy'r syniad yn gweithio?

Beth yw eich hoff ffrwythau a llysiau chi?

Crëwch siart o hoff fwydydd y dosbarth.

Trafodwch – os fyddech wedi blino ac am aros yn y gwely– pa fwyd fyddai'n eich tynnu oddi yno?



## Tudalen 22 a 23

Pwy ddaeth i helpu? Y pili-pala.

Beth ddywedodd y falwoden  – beth oedd yn ei feddwl?

Sut oedd y pili-pala yn teimlo?

Welwch chi esgidiau'r corryn?

Dysgwch eiriau gwahanol am pili-pala.



## Tudalen 24 a 25


Beth oedd y syniad newydd?

Syniad da?

Pa siapiau gwnaethant ei greu? Pwy oedd ar begwn y tŵr?

Pwy sydd ar y gwaelod – pam tybed?

Chwaraewch *tiddlywinks* – mae gwasgu un ochr yn achosi iddo neidio.



## Tudalen 26 a 27

Pwy ddaeth yn ôl? Y pili-pala.

A oedd wedi medru helpu?

Crëwch beintiadau o löynod byw a'u hongian yn yr ardd.



## Tudalen 28 a 29


A wnaeth y cynllun weithio?

Ydy Albert yn teimlo'n well?

Rhaid bod yn ofalus neu fe fydd Albert yn eu gwasgu.

Pa bryfed sy'n hedfan drwy'r awyr?

*Albert Ben i Lawr* Nodiadau Addysgu © 2021 Graffeg. Cedwir pob hawl.. Ysgrifennwyd gan Carys Jennings. www.graffeg.com/pages/teachers-resources.




## Tudalen 30 a 31

O na! Beth ddigwyddodd nesaf?

O diar, fe wnaeth Albert dorri gwynt!



## Tudalen 32 a 33

A oedd ffrindiau Albert yn hapus?

Sut gwyddoch?

Ble mae nhw'n sefyll? Ar ben y garreg.


Chwaraewch gëmau ble mae – beth sydd ar ben/ odan/ wrth ymyl y cwpwrdd.



## Tudalen 34 a 35

Gwybodaeth am yr awdur a'r darlunydd.

Gwybodaeth am grwbanod.




## Clawr cefn

Tynnwch sylw at y teitl.

Eglurwch beth yw'r broliant.

Beth arall sydd ar y cefn? ISBN/ Graffeg/ Pris y llyfr.

Edrychwch am lyfrau eraill gyda prisiau arnynt – trefnwch o'r rhataf i'r drutaf.

CYNAN:

**Albert Ben i Lawr**
ISBN 9781802580105

**Albert a'r Gwynt**
ISBN 9781802580112

Gall y nodiadau hyn gynnwys dolenni i wefannau trydydd parti. Nid yw Graffeg yn cymeradwyo gwefan(nau) or fath na'u cynnwys ac nid yw'n gyfrifol am gynnwys or fath ac nid yw'n cyflwyno unrhyw sylwadau na gwarantau ynghylch cynnwys, cywirdeb neu ymarferoldeb gwefan(nau) o'r fath.

*Albert Ben i Lawr* Nodiadau Addysgu © 2021 Graffeg. Cedwir pob hawl.. Ysgrifennwyd gan Carys Jennings. www.graffeg.com/pages/teachers-resources.